

"ALONE, WE
CAN DO SO
LITTLE;
TOGETHER,
WE CAN DO
SO MUCH"

HELEN KELLER



Cyd-destun y gymuned

Lleolwyd fy ysgol leoliad mewn ardal drefol gyda phoblogaeth o dua 30,000 o bobl. Mae 189 o blant yn mynd i'r ysgol, a darparwyd yr addysg trwy gyfrwng y Gymraeg (Llywodraeth Cymru (LIC), 2019). Daw dim ond 10% o'r disgyblion o gartrefi lle siaredir Cymraeg (Estyn, 2015), sy'n cyfateb â'r canran o bobl sydd yn gallu siarad Cymraeg yn yr ardal sef 11.4% (LIC, 2019). Cyfrifwyd hefyd fod 10% o boblogaeth yr ardal yn bobl du, asiaidd a lleiafrif ethnig, ond ychydig iawn o ddisgyblion yr ysgol sy'n dod o gefndiroedd ethnig lleiafrifol (LIC, 2019). Ar sail agweddau socio-economaidd yr ardal, mae 21% o amddifadedd materol yn yr ardal (LIC, 2019). Esbonia hyn y canran o ddisgyblion sydd yn gymwys i brydau ysgol am ddim yn fy ysgol leoliad, sef 17.5% ac mae hyn yn gymharol uwch na'r canran cymedrig yr ysgolion eraill sydd yn yr ardal, sef 8.6% (LIC, 2019).

Perthynas rhwng y dysgwr, yr ysgol a'r gymuned

Mae'r ysgol, rhieni a'r gymuned yn "spheres of influence who should create a greater overlap between each other" (Epstein, 2001, tud.24). Gwna fy ysgol leoliad amryw o bethau y tu hwnt i glwyd yr ysgol, ac maent yn ymgysylltu'n eang gyda'r gymuned leol. Crewyd arddangosfa tu allan i'r dderbynfa gyda'r teitl 'Newyddion y Gymuned'. Yn ogystal â hyn, mae yna tystysgrifau ar y bwrdd hysbysebu sy'n dangos yr arian a godwyd i elusennau gwahanol. Mae banc dillad ar bwys mynedfa'r ysgol lle mae modd i rieni ail-gylchu dillad eu plant i helpu'r gymuned. Ar ben hyn i gyd, mae tudalen Trydar a Facebook gan yr ysgol, er mwyn diweddarau'r gymuned gyda newyddion, digwyddiadau a llwyddiannau'r ysgol. O ran y dysgwr, darparir cyfleoedd i gynrychioli'r ysgol a'r gymuned mewn eisteddfodau, galâu nofio a chystadlaethau chwaraeon amrywiol. Cynhaliwyd clybiau chwaraeon, côdio ac urdd hefyd er mwyn datblygu sgiliau a hyder y plant, ac yn aml daw siaradwyr gwadd o'r gymuned leol, megis yr heddlu, i wneud gweithgareddau addysgol gyda'r disgyblion, neu fe gerddir y plant i'r eglwys lleol a holi cwestiynau i'r ficer. Mae hyn yn mynd law yn llaw gydag un o ddibenion Donaldson (2019), sef y dylai'n disgyblion fod yn ddinasyddion egwyddorol, gwybodus.

"At the end of the day, the most overwhelming key to a child's success is the positive involvement of parents."

Jane D. Hull

Yr ysgol a'i hamgylchedd

Ni sylweddolais pwysigrwydd yr amgylchedd ddosbarth ar addysg y disgyblion. Sonir Glasser (1998), am y pwysigrwydd o gael dewis, ac hefyd yr hyn sy'n angenrheidiol i blant mewn addysg. Fe gynllunir y dosbarth yn fy ysgol leoliad mewn ffordd sy'n galluogi a hybu dysgu, trwy rhannu'r dosbarth mewn i nifer o barthau wahanol, megis iaith, mathemateg a chreadigol. Yr effaith cadarnhaol isymwybodol sy'n deillio o'r trefn yma yw bod y disgyblion yn dod i arfer gyda sut caiff popeth ei osod. Maent yn deall pa waith sy'n cael ei gyflawni ym mha barth. Mae'r dosbarth hefyd yn ymfalchïo mewn gwaith da neu chyflawniad penigamp. Mae hyn yn rhoi cymhelliant i'r plant i orffen a chyflawni gwaith o safon er mwyn derbyn clod. Rhaid cofio "the ultimate goal is to provide an environment conducive to student learning" (Houff, 2013, tud.7)



Dechrau wrth fy nhraed



Perthynas rhwng yr ysgol a'r rhieni

Cynllun wnaeth sefyll allan yn syth i mi, ac un sy'n wir pwysleisio'r cysylltiad rhwng yr ysgol a'r rhieni, yw'r ap 'Seesaw'. Cyfle yw hwn i'r athrawon dosbarth greu grwp sy'n cynnwys rhieni'r disgyblion sydd yn y dosbarth, a'u hatgoffa nhw o unrhyw ddigwyddiadau neu newyddion pwysig, fel taith addysgol neu wers addysg gorfforol, ac os oes angen brechdanau neu beidio. Mae'r cynllun hefyd yn caniatáu i'r rhieni weld pa fath o waith mae'r plant yn cyflawni, wrth i'r athrawes lwytho i fyny 'Gwaith gwyh yr wythnos' a nodi hefyd y tasgau gwaith cartref. Mae'r syniad yma yn sicrhau cyfathrebu clir rhwng yr ysgol a'r rhieni, ac yn osgoi unrhyw ddryswch neu benbleth. Digwyddiadau arall sy'n atgyfnerthu'r cysylltiad yw nosweithiau rhieni ac agored. Trafodwyd cynnydd y disgyblion yn y noson rhieni, a'r syniad tu ôl y noson agored yw bod y plant yn arddangos gwaith ar modiwl penodol neu ar beth a ddysgwyd o daith addysgol, er mwyn i rhieni cael gweld bod yr arian maent yn eu wario yn talu ffordd.

Rhestr Gyfeirio:

Epstein, J.L (2001) *School, Family, And Community Partnerships*. Avalon Publishing.

Estyn (2015) Ar gael yn: <https://www.estyn.llyw.cymru> (Darllenwyd: 3 Chwefror 2020).

Glasser, W (2010) *Choice Theory*. Harper Collins.

Houff, S.G (2013) *Managing the Classroom Environment*. R&L Education.

Llywodraeth Cymru (2020) *Cwricwlwm i Gymru*. Ar gael yn: <https://llyw.cymru/y-cwricwlwm-newydd-poster> (Darllenwyd: 31 Ionawr 2020).

Llywodraeth Cymru (2019) *Fy ysgol leol*. Ar gael yn: <https://mylocalschool.gov.wales> (Darllenwyd: 2 Chwefror 2020).

Llywodraeth Cymru (2019) *Stats Cymru*. Ar gael yn: <https://statscymru.llyw.cymru> (Darllenwyd: 31 Ionawr 2020).

